Cylchlythyr 2025

# Cyngor Cymuned y Mwmbwls

mumbles.gov.uk





## Diolch

'Diolch i'n gwirfoddolwyr – Ymunwch â ni yn 2025'



## Amgylcheddol

Prosiect Gardd Jiwbilî bron wedi'i gwblhau




## Gŵyl y Mwmbwls 24

Roedd Castell Ystumllwynarth yn gartref i Ŵyl y Mwmbwls gwych arall

**Hefyd:** Coffi gyda chyfeillion, Mwmbwls amgylcheddol, grantiau, prosiect amddiffyn yr arfordir a mwy...

# Llythyr oddi wrth Gadeirydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls, y Cynghorydd Martin O'Neill





Croeso i rifyn diweddaraf ein cylchlythyr. Mae wedi bod yn flwyddyn wych arall i Gyngor Cymuned y Mwmbwls, yn llawn digwyddiadau cymunedol gwych, prosiectau amgylcheddol fel adfer Gerddi Jiwbilî, a chynulliadau casglu sbwriel rheolaidd. Rydym hefyd wedi gallu dyrannu nifer o grantiau i gefnogi mentrau lleol.

Efallai eich bod wedi sylwi ar newid yn ein hamserlen gyhoeddi. Oherwydd y pwysau ariannol cynyddol ar y cyngor a chostau sy'n mynd yn ddrutach, mae'n dod yn fwy heriol cynnal yr un lefel o wasanaeth o fewn ein cyllideb bresennol.





Wedi dweud hynny, rwy'n llawn cyffro i rannu y byddwn yn parhau i gynnal digwyddiadau allweddol sy'n gwneud gwahaniaeth i'n cymuned yn y flwyddyn i ddod. O Ŵyl y Mwmbwls yn yr haf i'n digwyddiadau Nadolig gwych, mae'r achlysuron hyn yn cynnig cyfle i ni gyd ddod at ein gilydd, dathlu, ac arddangos popeth sydd gan y Mwmbwls i'w gynnig. Byddwn hefyd yn parhau i gynnal ein Diwrnodau Hwyl i'r Teulu, Coffi gyda Chyfeillion, a chynulliadau Canolfan Clyd – gwasanaethau y gwyddom sy'n cael effaith ystyrlon ar y rhai sy'n bresennol.

Mae Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau arloesol sy'n diwallu anghenion ein cymuned.

Y Cynghorydd Martin O'Neill
Cadeirydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls






# Coffi, cacen a chyfeillgarwch am ddim bob dydd Mawrth yng Nghanolfan Ostreme!

Dewch draw i Ganolfan Ostreme bob dydd Mawrth rhwng 12pm a 2pm am goffi a chacen am ddim a chwmni da!

Mae'n gyfle perffaith i gwrdd â ffrindiau newydd, sgwrsio dros baned, a mwynhau sleisen o gacen. Weithiau mae gennym ni gerddoriaeth a brechdanau am ddim hefyd! Mae'n rhad ac am ddim!

Diolch yn fawr iawn i'n gwirfoddolwyr gwych – Sue, Helen, ac Enid – am gynnal y digwyddiad hwn bob wythnos. Heb eu cefnogaeth a'u hymroddiad, ni fyddai hyn yn bosibl.

Gobeithio y gallwch ymuno â ni ddydd Mawrth nesaf!









# Diwrnodau Hwyl i'r Teulu

Ymunodd cannoedd o blant ac oedolion â ni ar gyfer y Diwrnodau Hwyl i'r Teulu yn ystod hanner tymor mis Chwefror a gwyliau'r haf y llynedd.

Roedd y gweithgareddau niferus a phecynnau bwyd, hufen iâ, a pizza am ddim yn cadw lefelau egni yn uchel!

Cefnogwyd y Diwrnodau Hwyl i'r Teulu gan Gyllid COAST Cronfa Ffyniant Gyffredin Cyngor Abertawe.









# Gŵyl y Mwmbwls 24

Roedd Gŵyl y Mwmbwls 24, a gynhaliwyd ym mis Mehefin yng Nghastell Ystumllwynarth, yn llwyddiant ysgubol! Roedd y llwyfan yn 'rocio' gyda cherddoriaeth fyw trwy gydol y dydd ac i mewn i'r nos, tra bod stondinau bwyd yn cynnig barbeciw, pizza, pysgod a sglodion, a hufen iâ yn cadw pawb yn fodlon. Ychwanegodd y babell gwrw brysur at yr awyrgylch bywiog.

Cafodd y plant hwyl gyda chestyll sboncio, gweithdy syrcas, a phaentio wynebau a gliter gwych am ddim.

Diolch i bawb a aeth i Ŵyl y Mwmbwls 24. Neilltuwch y dyddiad ar gyfer Gŵyl y Mwmbwls 25 a fydd yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn, 7 Mehefin!






# Dathliadau Arswydus

Daeth Calan Gaeaf â digon o gyffro i'r gymuned gyda dau barti gwych. Cynhaliodd Hwb Underhill ddisgo bywiog, yn llawn o ganeuon arswydus a digon o ddawnsio, tra bu Canolfan Gymunedol West Cross yn cynnal ei pharti Calan Gaeaf bywiog ei hun. Roedd digonedd o gŵn poeth a melysion ar gael yn y ddau barti felly!





# Disgleirdeb y 'Dolig

Cafodd tymor y Nadolig ddechreuad cyffrous gyda reidiau trên bach ar hyd y promenâd, lle dosbarthodd ein corachod focsys o siocled am ddim, diolch i gyllid gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Parhaodd yr awyrgylch Nadoligaidd wrth i oleuadau'r Nadolig cael eu cynnau yng Nghanolfan Ostreme.

Ymhlith yr uchafbwyntiau Nadoligaidd eraill yn ystod mis Rhagfyr roedd te prynhawn i ddathlu'r Nadolig yn Neuadd Bentref Newton, lle bu gwesteion yn mwynhau danteithion blasus a chwmni cynnes. Yng Nghanolfan Ostreme, ymgasglodd ymwelwyr a phobl leol ar gyfer diodydd Nadolig a canapés, tra cynhaliodd West Cross barti Nadolig bywiog a chwis Nadolig hwyliog, gan ychwanegu at ddathliadau'r ŵyl.










# Digwyddiadau i ddod yn 2025












# Cyflawnwyd Carreg Filltir Prosiect i Amddiffyn Arfordir y Mwmbwls



Mae prosiect i amddiffyn arfordir y Mwmbwls wedi cyrraedd carreg filltir wrth ddadorchuddio panel celfwaith cyntaf yn dathlu treftadaeth forwrol yr ardal. Wedi'i leoli ar y wal troi tonnau, mae'r panel, a ddyluniwyd gan yr artist o Abertawe, Catrin Jones, yn cynnwys bywyd morol fel sêr môr, pysgod cregyn, a phiod môr.

Yn ogystal, mae polion hanesyddol tram y Mwmbwls ger maes parcio Ystumllwynarth wedi'u hadfer i'w lliwiau gwreiddiol, gan ddiogelu darn pwysig o hanes lleol. Bydd y grisiau sydd â golygfa o'r môr yn ailagor yn fuan yn dilyn gwelliannau diogelwch a hygyrchedd, gan ddarparu cyswllt hanfodol i'r traeth.

Mae'r cam nesaf yn canolbwyntio ar ailadeiladu llithrfeydd yn Southend a ger Knab Rock, sy'n hanfodol ar gyfer mynediad cyhoeddus i'r glannau. Mae gwelliannau i fannau cyhoeddus, gan gynnwys promenâd ehangach, meinciau newydd, a thirlunio helaeth hefyd yn mynd rhagddo.

Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau yn ystod gwanwyn 2025.

# Tudalennau Grantiau

## Clwb Ieuenctid West Cross

Os ydych chi ym mlynyddoedd 6 i 10 yn yr ysgol yna mae Clwb Ieuenctid West Cross ar eich cyfer chi! Rydym yn agor yn ystod tymor yr ysgol yn Eglwys a Hyb Llesiant Linden bob dydd Llun rhwng 5.30pm a 7pm ar gyfer noson o weithgareddau hwyliog, gemau, coginio, crefftau a chwaraeon ac rydym yn cynnig lle diogel i gymdeithasu.


Mae clybiau ieuenctid yn adnodd mor werthfawr yn ein cymunedau, ac rydym yn ddiolchgar i Gyngor Cymuned y Mwmbwls am eu cefnogaeth ariannol sy'n ein galluogi i agor yn rhad ac am ddim i bobl ifanc ac sy'n cyfrannu at gost yr holl weithgareddau.

Cysylltwch â info@redcommunityproject.org.uk am ragor o wybodaeth neu ffoniwch 01792 403777.










## Twrnamaint Rygbi 'Crackers' Sevens'

A gaf i achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Gyngor Cymuned y Mwmbwls am ei gymorth a'i grant a alluogodd twrnamaint rygbi 'Crackers' Sevens' i gael ei gynnal. Roedd y digwyddiad cymunedol lleol hwn yn y Mwmbwls yn llwyddiant mawr. Daeth y pentref allan i gefnogi digwyddiad gwych arall yn ein hardal.

Gwerthfawrogir eich cefnogaeth barhaus yn fawr iawn.

Cofion cynnes,
Simon Evans
Cadeirydd Clwb Rygbi'r Mwmbwls

# Mynd yn y Mwmbwls a Gwefreiddiol yn y Gŵyr

Mae Mynd yn y Mwmbwls yn grŵp dawns ar gyfer pobl sy'n 60 oed ac yn hŷn sy'n ceisio eu hatal rhag cwympo. Mae'r grŵp yn hyrwyddo ffitrwydd trwy ddawns, symud, Tai Chi, myfyrdod a phropiau hwyliog. Mae'r grŵp yn gynhwysol, yn croesawu unigolion sydd â heriau symudedd ac anghenion arbennig, gan gynnwys y rhai dros 90 oed sydd â gwell symudedd a hyder. Rydym yn canolbwyntio ar ffitrwydd aerobig, cydbwysedd, cryfder ac ystwythder, ac mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn profi llai o gwympiadau. Ariennir y grŵp gan y Loteri Genedlaethol, ac rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth ychwanegol grant gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls sydd wedi ein galluogi i ddal ati. Ar ôl dosbarthiadau, rydym yn mwynhau coffi, te, a sgwrs.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Katie ar 07977173388
Mynd yn y Mwmbwls, bob dydd Llun, rhwng 3pm a 5pm, yng Nghanolfan Ostreme, y Mwmbwls



## CPD Newton Athletic



Cynhaliodd CPD Newton Athletic ei ŵyl bêl-droed gyntaf yn ystod yr haf ym mis Mehefin 2024, ac mae ein diolch a'n gwerthfawrogiad diffuant i Gyngor Cymuned y Mwmbwls, a roddodd grant i'n clwb i'n galluogi i gynnal y digwyddiad hwn a chynnig diwrnod o hwyl a sbri i'r gymuned leol.

Roedd y diwrnod yn anhygoel ac mae CPD Newton Athletic bellach yn barod i wneud hwn yn ddigwyddiad blynyddol ac mae dyddiad y flwyddyn nesaf eisoes wedi'i nodi.

Nodwch y dyddiad! Dydd Sadwrn 21 Mehefin, 2025 ym Mharc Underhill! Diwrnod hwyl i'r teulu i bawb!



# Mwmbwls Amgylchedd



## Prosiect Gardd Jiwbilî ar fin cael ei gwblhau gyda gwaith paratoi'r pridd wedi gorffen

Mae prosiect Gardd Jiwbilî ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2025, gyda'r holl waith paratoi'r pridd bellach wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Mae'r fenter gyffrous hon yn trawsnewid man gwyrdd sydd wedi'i esgeuluso yn ardd synhwyraidd fywiog, bioamrywiol sy'n cynnwys systemau draenio trefol cynaliadwy i reoli dŵr ffo wyneb.

Wedi'i ariannu gan raglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur y Loteri Genedlaethol a'i chyflwyno mewn partneriaeth â Thŷ Llanfair, bydd yr ardd yn hafan dawel i'r gymuned ac ar yr un pryd yn arddangos datrysiadau amgylcheddol arloesol. Gyda'r plannu a'r gosodiadau terfynol ar fin digwydd, mae disgwyl eiddgar am yr agoriad mawreddog, a fydd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, gwirfoddoli ac addysg amgylcheddol. Cadwch lygad am yr wybodaeth ddiweddaraf wrth i ni nesáu at y garreg filltir gyffrous hon!





## Dweud eich dweud: arolwg gwirfoddolwyr ar gael yn awr i'w gwblhau!





Rydym ni eisiau clywed gennych chi! P'un a ydych chi'n wirfoddolwr rheolaidd neu'n rhywun sydd â diddordeb mewn cymryd rhan, mae eich adborth yn amhrisiadwy. Mae ein Harolwg Gwirfoddolwyr bellach ar gael i'w gwblhau, ac rydym yn awyddus i ddysgu sut y gallwn gefnogi a thyfu ein cymuned anhygoel o wirfoddolwyr yn well.

Bydd eich mewnbwn yn helpu i lywio cyfleoedd yn y dyfodol, yn gwella cymorth i wirfoddolwyr, ac yn sicrhau bod ein prosiectau mor werth chweil ac mor effeithiol â phosibl.

Cwblhewch yr arolwg heddiw a helpwch ni i wneud gwirfoddol hyd yn oed yn well i bawb!

Diolch am fod yn rhan o'n cymuned ac am rannu eich syniadau!

## Hyb Casglu Sbwriel newydd ar agor yn awr yng Nghanolfan Ostreme!

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod yr Hyb Casglu Sbwriel newydd yng Nghanolfan Ostreme wedi'i lansio'n swyddogol ar 2 Ionawr, 2025, mewn partneriaeth â Cadwch Gymru'n Daclus. Mae'r fenter hon yn grymuso trigolion i gymryd rhan weithredol yn cadw ein cymuned yn lân ac yn hardd.

Yn yr hyb, gallwch nawr fenthyg offer casglu sbwriel yn rhad ac am ddim, gan ei gwneud yn haws nag erioed i drefnu eich sesiynau casglu sbwriel eich hun ar amser sy'n gyfleus i chi. Mae'r fenter hon yn ategu'r digwyddiadau casglu sbwriel misol a drefnir gan y cyngor, gan ddarparu hyd yn oed mwy o gyfleoedd i gymryd rhan.

Roedd y digwyddiad lansio ar 2 Ionawr yn llwyddiant ysgubol, gan ddod â phobl o'r un anian ynghyd sy'n teimlo'n angerddol am gynnal cymuned lân a bywiog. Rydym yn llawn cyffro i weld hyd yn oed mwy o bobl yn cymryd rhan ac yn gwneud gwahaniaeth. Anfonwch neges e-bost at Robert.hernando@mumbles.gov.uk i fenthyg offer ac ymunwch â ni i gadw ein cymuned yn lanach ac yn wyrddach!





## Stori'r Mwmbwls

Mae Prosiect Archif Digidol Stori'r Mwmbwls yn ffynnu, gyda 2300 o eitemau bellach wedi'u sganio a'u digideiddio gan ein tîm o wirfoddolwyr ymroddedig. Rydym yn derbyn lluniau, pethau cofiadwy, erthyglau, llythyrau, a hanesion llafar gan drigolion lleol a'r rhai sydd â chysylltiadau â'r ardal.

Rydym yn croesawu unrhyw atgofion yr hoffech eu rhannu o Caswell, Langland, y Mwmbwls, Norton, Newton, West Cross, Mayals, Blackpill a Chlun. I gael rhagor o wybodaeth neu i gymryd rhan, cysylltwch â Bev Rogers, Cydgysylltydd Treftadaeth y Mwmbwls, ar 07881 102514 neu anfonwch neges e-bost i thestoryofmumbles@gmail.com.

**storyofmumbles.org.uk**








**Cysylltwch â ni:**
Os hoffech chi gysylltu, cysylltwch â ni drwy:

**Rhif ffôn:**
01792 363598

**Drwy e-bost:**
council@mumbles.gov.uk

**Drwy'r post:**
Y Clerc, Cyngor Cymuned y Mwmbwls, Minor Hall, Canolfan Ostreme, Rhodfa'r Castell, Y Mwmbwls, SA3 4BA

I gael rhagor o wybodaeth am Gyngor Cymuned y Mwmbwls, ewch i'n gwefan: mumbles.gov.uk

Mumbles Community Council

@MumblesCommunityCouncil
mumbles_community_council
@MumblesCouncil